# GWYBODAETH I RIENI DOSBARTHIADAU BLWYDDYN 1 a 2 TYMOR YR HYDREF 2017

# DYMA FI

## Personol a Chymdeithasol

Ymgartrefu yn y dosbarth.
Ymgyfarwyddo â rheolau'r dosbarth.
Dysgu cyd-chwarae a rhannu â'u cyfoedion.
Dangos cwrteisi a pharchu eraill.
Diolchgarwch a Nadolig.
Pwysleisio pwysigrwydd hylendid personol, bwyta'n iach a chadw'n heini.
Trafod teimladau.
Cyflwyno storiau o'r Beibl.
Gofalu am eraill-Chwarae rôl 'Yr Ysbyty'.


## Mathemateg

Rydym yn rhannu'r plant i dair haen ym Mathemateg.
Yn ystod y Noson Rieni byddwn yn rhoi amlinelliad o'r agweddau sydd wedi cael eu cyflawni yn ystod y tymor.

## Ieithyddol

Rydym yn rhannu'r plant i dair haen yn y gwersi iaith.
Gweithgareddau sy'n seiliedig ar straeon sy'n ymwneud â'r thema.
Byddwn yn cyfnewid llyfrau darllen bob pythefnos gan ganolbwyntio ar amrywiaeth o weithgareddau i ddatblygu sgiliau darllen ymhellach.
**Mae'n hanfodol fod y disgyblion yn dod â'u bagiau coch yn ddyddiol.**





## Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Trafod newidiadau yn Nhymor yr Hydref ac ymweld â choedwig.
Astudio'r corff, tyfu, synhwyrau a bwyta'n iach.
Edrych ar gasgliad o hen deganau.
Uned o waith mapio syml.
Ymweliadau gan nyrs a Mam.
Stori Creu'r Byd a Stori'r Geni.
Gwasanaeth Bedydd Eglwys.

## Creadigol

Dysgu caneuon sy'n ymwneud â'r thema.
Creu sgôr graffeg yn seiliedig ar dân gwyllt gan ddefnyddio offerynnau di-draw.
Edrych ar ddarlun 'Senecio' gan Paul Klee ac efelychu ei waith.

## Corfforol

Datblygu eu sgiliau corfforol mân a mawr.
Datblygu sgiliau anfon a derbyn pêl.
Darganfod ac ymarfer amrywiaeth o wahanol ffyrdd o anfon, derbyn a theithio gan ddefnyddio offer bach.
Adnabod yr effeithiau a gaiff Ymarfer Corff ar eu cyrff wrth iddynt symud. Mae'r gwersi Addysg Gorfforol fel a ganlyn:
Dydd Llun- ETO
Dydd Mawrth-GME
Dydd Mercher-BNE